

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir
Dyddiad	23.10.12
Pwnc	Ymgynghoriad Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru
Deilydd(ion) Portffolio	Y Cyng. Kenneth Hughes
Swyddog(ion) Arweiniol	Gwen Carrington, Cyfarwyddwraig cymuned
Swyddog Cyswllt	Gareth Llwyd, Prif Swyddog Cynllunio – Cyfadran Gymuned
Natur a rheswm am adrodd	
<p>Cyflwyno ymateb i'r Cyfnod Ymgynghori gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi cadwaladr ar Ofal Iechyd yng Ngogledd Cymru.</p>	

A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw
<p>Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 28.10.12.</p> <p>Cyflwynwn er cymeradwyaeth ymateb y Cyngor Sir i'r ddogfen ymgynghorol, Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru.</p>

B - Ystyriaethau

C – Crynodeb

CH - Argymhelliad

Cymeradwyo a rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr i gyflwyno ymateb y Cyngor Sir i'r cyfnod ymgynghori erbyn 28.10.12.

Enw awdur yr adroddiad: Gareth Llwyd
Prif Swyddog Cynllunio
Cyfadran Gymuned

Dyddiad: 19.10.12

Atodiadau:

- Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Cyfnod Ymgynghori ar 'Ofal Iechyd yng Ngogledd Cymru 2012'

Papurau Cefndirol:

- Dogfen Ymgynghorol 'Mae Gwasanaethau Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Cyfnod Ymgynghori ar 'Ofal Iechyd yng Ngogledd Cymru 2012'

1. Cyflwyniad

Gwerthfawrogwn y cyfle hwn i gyflwyno ein hymateb i'r ddogfen ymgynghorol a'i goblygiadau ar gyfer y boblogaeth mewn ardal wledig a dwyieithog fel Ynys Môn yn y gogledd-orllewin. Credwn ei bod yn holl bwysig bod barn y cyhoedd, rhanddalwyr allweddol a chynrychiolwyr gwahanol grwpiau o fewn y boblogaeth yn derbyn ystyriaeth fanwl a gofalus wrth gynllunio ac ail-fodelu gwasanaethau iechyd ar draws y Gogledd ac yn enwedig ar gyfer gwasanaethu ardaloedd mwy gwledig.

Tra 'rydym yn derbyn ac yn croesawu'r nod o wella a darparu amrediad eang o wasanaethau iechyd sy'n gwella iechyd o fewn y boblogaeth yn gyffredinol ar draws Gogledd Cymru, mae'n holl bwysig bod gwasanaethau yn parchu gwerthoedd y cyhoedd megis

- Derbyn parch ac urddas ymhob lleoliad gwasanaeth;
- Derbyn gwybodaeth amserol sydd yn eu galluogi i wneud dewisiadau hysbys;
- Derbyn mynediad amserol at wasanaethau hygyrch ar yr adegau cywir pan fyddent mewn cyflwr bregus a hynny heb oedi a dryswch;
- Dylai gwasanaethau gael eu darparu yn agos at ble mae pobl yn byw pan fydd hynny'n ddiogel ac yn addas;
- Dylai gwasanaethau arbenigol fod yn hygyrch ac ar gael o fewn ysbytai sydd o fewn cyrraedd rhwydd i bawb o fewn y boblogaeth beth bynnag fo'u hanghenion.
- Dylai gwasanaethau fod yn hygyrch i bawb beth bynnag fo'u dewis iaith a dylid parchu hawliau pobl i fynegi eu hanghenion a'u dewisiadau yn yr iaith o'u dewis yn unol â gofynion '**Mwy Na Geiriau**' – y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

2. Gwasanaethau hygyrch i bawb

'Rydym yn croesawu'r datganiad o gydnabyddiaeth ei bod yn holl bwysig i sicrhau bod teuluoedd, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr yn gallu mynegi eu hanghenion yn yr iaith o'u dewis. Fodd bynnag, mae cryn daith i'w dilyn er mwyn gwireddu'r amcan yma mewn ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn brif iaith teuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth yn unol â gofynion y Fframwaith Strategol, '**Mwy Na Geiriau**' gan Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae nifer o bobl Cymraeg eu hiaith yn y grwpiau mwyaf bregus o fewn ein cymdeithas yn profi anhawsterau ac yn methu derbyn gwasanaeth trwy gyfrwng eu mamiaith. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer pobl oedrannus a bregus sy'n dioddef o dementia ac oedolion bregus gydag anabledau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl. Mae anghen cryfhau'r gofynion iaith wrth benodi staff rheng flaen mewn nifer o feysydd gwasanaeth er mwyn sicrhau gwasanaethau asesu a gofal hygyrch a safonol sy'n parchu anghenion ieithyddol pawb o fewn y boblogaeth.

'Rydym yn croesawu'r bwriad a'r cynigion i symud gwasanaethau i'r gymuned a chynyddu'r gwariant ar wasanaethau iechyd cymunedol er mwyn darparu gwasanaethau hygyrch yn agosach at ble mae pobl yn byw.

3. Heriau Iechyd Cyhoeddus

Cytunwn bod angen i'r holl asiantaethau a rhanddalwyr allweddol weithio gyda'u gilydd er mwyn cyfarch anghenion a blaenoriaethau iechyd cyhoeddus megis atal ysmegu a chamddefnydd o alcohol a chyffuriau a'r angen i hybu bwyta'n iach a chynyddu ymarfer corfforol i bawb er mwyn lleihau afiechydon a gwella iechyd a lles yn gyffredinol. Mae angen sicrhau cydweithrediad agos er mwyn targedu ymgyrchoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o fewn ein cymunedau.

Mae cyfle yma i hybu gwell cydweithio rhwng y Gwasanaeth Iechyd a'r holl wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol megis Addysg, Hamdden, Gwarchod Y Cyhoedd, Tai a Gofal Cymdeithasol er mwyn cydlynu ymdrechion i leihau'r anghyfartaleddau iechyd a gwella iechyd a lles corfforol a meddyliol pawb o fewn ein cymdeithas.

4. Gwasanaethau Gofal Lem

'Rydym o'r farn ei bod yn holl bwysig i sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd allweddol ar gael o fewn cyrraedd y boblogaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i sut mae pobl yn gallu cyrraedd gwasanaethau gofal iechyd allweddol pan fo angen, ac yn enwedig pan maent yn byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell ar ochr ogleddol Ynys Môn. 'Rydym yn croesawu bwriadau i symud gwasanaethau yn agosach at y bobl er mwyn lleihau anhawsterau teithio ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

Mewn perthynas â'r bwriad i ganoli gwasanaethau neo-natal arbenigol tymor hir yn Arrowe Park Hospital ar Cilgwri, 'rydym yn adleisio barn y cyhoedd bod angen sicrhau darpariaeth llety ar gyfer rhieni ar y safle hwnnw er mwyn hwyluso mynediad a lleihau gofynion teithio yn ôl a blaen.

Mae angen rhoi mwy o sylw i hybu cydweithrediad gydag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cludiant er mwyn sicrhau bod darpariaeth cludiant fforddiadwy yn hwyluso mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn yr ardaloedd gwledig ble profir anhawsterau ar hyn o bryd. Er bod angen canoli rhai gwasanaethau arbenigol yn un o'r dair ysbyty gyffredinol, mi fydd angen ystyried anghenion teithio rhai defnyddwyr gwasanaeth er mwyn cyrraedd y gwasanaethau hyn yn ogystal â pha mor rhwydd ydyw i'r teulu/gofalwyr ymweld a darparu cefnogaeth. Dylid ystyried hefyd anghenion y bobl hynny sydd angen triniaeth cancr dyddiol yn Ysbyty Glan Clwyd a pha mor ymarferol yw teithio i'r ganolfan honno i dderbyn triniaeth.

5. Gofal Cynradd a Gofal Iechyd Cymunedol

Mae angen rhoi sylw hefyd i'r angen i ddarparu gwasanaethau gofal cynradd a gofal cymunedol intigredig ac ymatebol 24/7 sy'n lleihau'r angen i dderbyn mynediad diangen i Ysbyty Gwynedd ac yn enwedig ar gyfer pobl hŷn bregus. Rhaid sicrhau bod meddygon teulu a gwasanaethau allan-o-oriau yn gallu darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n cynnal pobl adref yn eu cartrefi gyda chefnogaeth briodol cyhyd ag y bo modd er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau gofal eilaidd yn Ysbyty Gwynedd ac er mwyn lleihau aflonyddwch i bobl oedrannus a bregus. Dylid adeiladu ar gynlluniau lleol sy'n darparu gwasanaethau Gofal Estynedig (Enhanced Care) mwy intigredig er mwyn darparu ymateb amserol i fonitro cyflwr meddygol a chadw pobl adref yn eu cartrefi eu hunain. Mae angen rhoi mwy o sylw i ddatblygu gwasanaethau tele-iechyd er mwyn manteisio ar y cyfleon a gynigir trwy ddarparu offer monitro priodol. Dylid hefyd adeiladu ar gynlluniau sy'n helpu pobl i ddeall eu cyflyrau iechyd yn well a gofalu am eu hunain er mwyn lleihau afiechyd.

Dylid adeiladu ar y cydweithio lleol sy'n datblygu trwy'r grwpiau ardal lleol a arweinir gan meddygon teulu er mwyn sicrhau gwell cydlynw a darparu gwasanaethau mwy intigredig yn y gymuned i gefnogi a chynnal pobl adref cyhyd ag y bo modd. Bydd angen adeiladu ar y gwaith hefyd o ddatblygu'r gwasanaethau cymunedol y gellir eu darparu trwy meddygfeydd, fferyllfeydd, deintfeydd a gwasanaethau optometry. 'Rydym yn cefnogi ymdrechion i dargedu gwasanaethau ymyrraeth cynnar ac ymgyrchoedd ataliol ar wahanol grwpiau o flaenoriaeth o fewn y boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau afiechyd.

Mae angen mwy o eglurdeb tros rôl arweiniol y Grwpiau Datblygu Ardal mewn datblygu a gweithredu'r rhaglen ail-fodelu ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Cynradd a Chymunedol yn unol â'r agenda newid a amlinellir yn y ddogfen ymgynghorol.

Mae angen mwy o sylw er mwyn cryfhau gwasanaethau megis

- Gwasanaethau a ddarperir gan Ymwelwyr Iechyd a nyrsus ysgol i gefnogi plant a theuluoedd;
- Gwasanaethau mwy intigredig i gefnogi plant gydag anableddau a chyflyrau iechyd tymor hir a'u teuluoedd;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol i hybu iechyd a lles meddyliol a chefnogi pobl adref yn y gymuned;
- Mentrau ar y cyd gyda Hamdden a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a mudiadau gwirfoddol sy'n lleihau codymu ymhlith pobl hŷn;
- Rhaglenni addysg sy'n helpu pobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor i allu deall a rheoli symptomau yn well er mwyn cadw'n iach;
- Defnydd o offer tele-iechyd ar gyfer monitro cyflyrau a lleihau'r angen i deithio i ganolfannau iechyd;

- Cydweithio'n agosach gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn adnabod a chefnogi Gofalwyr yn y rôl o ofalu am blant, perthnasau a ffrindiau yn y gymuned.

6. Ysbyty Cefni ac Ysbyty Penrhos Stanley (Community Hospital Hubs)

'Rydym yn ffodus iawn ar Ynys Môn bod gennym ddwy ysbyty gymunedol mewn adeiladau modern sy'n cynnig cyfleon gwych ar gyfer datblygu canolfannau lleol ar gyfer darparu gwelyau camu-fyny a chamu-lawr i gyfarfod anghenion adferiad ac ail-ymaddasu a gofal ysbaidd. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu amrediad o wasanaethau triniaethol a gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned leol er mwyn cyfarch y nod o symud gwasanaethau eilaidd allan i'r gymuned ac yn agosach at y bobl.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn y ddwy ysbyty gymunedol ar hyn o bryd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y boblogaeth ar Ynys Môn ac yn ardal Arfon a thu hwnt. Dylid manteisio ar y cyfle hwn i ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysbyty Cefni ac Ysbyty Penrhos Stanley er mwyn sicrhau:

- Cyflenwad digonol o welyau ar gyfer darparu adferiad a chyfnod o ail-ymaddasu wrth i gleifion gamu-lawr o Ysbyty Gwynedd neu unedau llym eraill;
- Cyflenwad digonol o welyau ar gyfer gofal dementia yn Ysbyty Cefni i gyfarfod anghenion cynyddol o fewn y boblogaeth hŷn;
- Gwasanaeth Uned Mân Ddamweiniau ac x-ray yn Ysbyty Penrhos Stanley er mwyn lleihau'r pwysau ar yr Uned Frys yn Ysbyty Gwynedd;
- Gwasanaethau ar gyfer cleifion allanol;
- Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol, physiotherapi a therapyddion eraill;

7. Iechyd Meddwl Pobl Hŷn

'Rydym yn croesawu bwriadau i gryfhau gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl gyda dementia a'u gofalwyr yng Ngwynedd ac Ynys Môn, yn enwedig wrth i anghenion dementia gynyddu yn y boblogaeth hŷn. Mi fydd angen sicrhau cyflenwad digonol o welyau sy'n cynnig gofal mewn ysbyty ar gyfer pobl gyda dementia gan gynnwys gwasanaethau deiagnosis cynnar a chlinigau côf.

'Rydym hefyd yn croesawu bwriadau i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir trwy'r Timau Iechyd Meddwl cymunedol er mwyn darparu cefnogaeth estynedig i ofal dementia mewn cartrefi gofal preswyl.

'Rydym yn bryderus ynglyn â'r bwriad i leihau nifer y gwelyau yn Ysbyty Cefni tros gyfnod o amser. Serch hynny, byddai symud y gwelyau dementia yn ôl i Ysbyty Gwynedd yn rhyddhau'r adeilad ar gyfer symud a chryfhau gwasanaethau gofal cynradd a gofal cymunedol yn ardal Ynys Môn. Mae'r buddsoddiad sydd wedi bod yn adeilad Ysbyty Cefni tros y blynyddoedd yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer intigreiddio a chydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a symud gwasanaethau yn agosach at gartrefi pobl yn y

gymuned. Mae angen manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael er mwyn intigreiddio a chydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn meysydd megis

- Gofal Pobl Hŷn, yn enwedig pobl gyda dementia;
- Gwasanaethau Gwarchod Plant sy'n agored i niwed neu mewn angen;
- Plant gydag anableddau a chyflyrau hirdymor
- Oedolion gydag Anableddau Dysgu
- Oedolion gydag anableddau corfforol

Ystyriaethau pellach:

- i) Angen ystyried sut i gynllunio ar gyfer argaeledd staff a goblygiadau cynnal yr ysbyty lleol os oes bwriad i leihau nifer y gwelyau.
- ii) Angen ystyriaeth bellach pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr os bydd llai o ddefnydd o welyau yn Ysbyty Cefni ynghyd a chostau gofal yn y gymuned.

Mae cyfle yma hefyd i hybu gwell cydweithrediad gyda Adran Hamdden er mwyn hybu gwasanaethau ymarfer trwy wahoddiad a gwasanaethau asesu ac atal peryglon codymu. Dylid manteisio ar y cyfleoedd hefyd i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau ataliol mewn cydweithrediad gyda'r 3ydd sector, ac yn enwedig trwy'r Canolfannau Heneiddio'n Dda sydd wedi cael eu datblygu ar Ynys Môn.

8. Sylwadau a chwestiynnau cyffredinol

Yn ystod trafodaethau gyda swyddogion ac aelodau etholedig, mae'r cwestiynnau canlynol wedi codi mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

- i) Pa gynlluniau penodol sy'n cael eu datblygu yn y cymunedau er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth gofal dementia o fewn i'r gymuned?
- ii) Sut mae'r cynlluniau yma'n cael eu hariannu a'u darparu?
- iii) Beth yw'r oblygiadau ar gyfer defnyddwyr a gofalwyr penodol o fewn i'r cynlluniau yma - o ran materion ymarferol megis teithio / ysbaid?
- iv) Lle mae'r cynlluniau manwl o ran ail broffilio gwasanaethau'n cael eu cynnal o fewn cyd-destun Ynys Môn?
- v) Pa sicrwydd mae'r cynlluniau yma'n eu cynnig o ran sefydlogrwydd a sicrwydd darpariaeth gyfartal (Equitable) ar gyfer dinasyddion Môn yw cymharu ag ardaloedd eraill Gogledd Cymru ble mae'r gwasanaethau arbenigol yn cael eu canoli?
- vi) Pa oblygiadau sydd ar gyfer y gweithlu a natur y swyddi ym maes iechyd?